'steddfota

Cylchlythyr Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

Rhif 38 | Hybu eisteddfodau, cynnal cymunedau | Mai 2016

COLLI SAER, COLLI SEREN

Llewelyn Wyn Jones.

Ym mhob ardal, o flwyddyn i flwyddyn, rydym yn colli Cymry da. Pobl sydd wedi bod yn asgwrn cefn y diwylliant lleol ac wedi cynnal a chadw ein gwerthoedd a'n traddodiadau am flynyddoedd. Un o'r unigolion gwerthfawr hynny oedd Llewelyn Wyn Jones a fu farw yn ddiweddar yn Eisteddfod y Ffôr. Roedd Llewelyn wedi bod ar y llwyfan eiliadau cynt yn cystadlu ar y Gân Werin. Meddai Gwilym Griffith, cyfaill iddo, a oedd yn arwain yr eistedfod ar nos Sadwrn, 16 Ebrill, 'Canodd y gân werin yn ysgubol, 'run fath ag arfer, a wnaeth o 'mond cerdded o'r llwyfan ac eistedd, os wnaeth o eistedd hyd yn oed, ar sedd y tu ôl i mi a disgynnodd yn farw. Mi wnaeth y paradmedics eu gorau i'w adfer, ond methiant fuodd hynny."

Roedd Llewelyn yn 74 oed, ac yn byw yn Rhosfawr, ger y Ffôr, yn saer penigamp ac wedi llunio sawl cadair i eisteddfodau lleol, gan gynnwys cadair Y Ffôr eleni. Gan amlaf ni fyddai'n torri ei enw ar unrhyw gadair i nodi mai ef oedd y saer ond eleni am rhyw reswm fe benderfynodd gwneud hynny. Yn ogystal â chadeiriau eisteddfodau lleol, roedd o hefyd wedi creu cadeiriau cenedlaethol. Llywelyn wnaeth y gadair i deulu Fron Olau, Rhoslan ger Cricieth i goffáu tad a mab adeg Eisteddfod yr Urdd Glynllifon yn 2012.

I'r ddarlledwraig Bethan Jones Parry, a gyflwynodd y Gadair, gyda'i mam, roedd y saer coed yn "gyfaill penigamp."

"Roedd yn grefftwr diwylliedig, oedd wedi gwneud peth wmbreth i ddiwylliant ei fro a thrwy hynny ei wlad," meddai Bethan Jones Parry, cyfaill i'r teulu.

"Roedd o hapusaf yn trin coed ac yn trin yr ardd ac mi roedd e'n ŵr, yn dad, yn daid ac yn gyfaill penigamp."

Mae ardal y Ffôr, a'n diwylliant wedi colli cymwynaswr a chyfaill ac mae'r Gymdeithas yn cydymdeimlo'n fawr â'r teulu.

ENWEBIADAU ANRHYDEDDU 2016

Cofiwch bod y Gymdeithas yn awyddus i glywed gennych pwy ddylem eu hanrhydeddu yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni am eu gwaith dygn a diflino dros eisteddfod leol. Yn flynyddol rydym yn anrhydeddu nifer o bobl mewn seremoni arbennig yn ystod yn ein Cyfarfod Blynyddol ar Faes y Brifwyl. Gwirfoddolwyr o'r De fydd yn derbyn ein diolch eleni. Y dyddiad cau yw 30/06/2016 Cysylltwch â Shân Crofft.

Y GYMDEITHAS YN EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD 2016

Cofiwch y bydd gan y Gymdeithas stondin yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Fflint eleni. Yno cewch gystadlu ar linell goll bob dydd, prynu tocyn raffl, codi rhaglenni eisteddfodau neu dim ond eistedd am baned a chlonc. Yn ystod yr wythnos bydd rhai o griw rhaglen *Ysbyty Hospital* S4C (llun isod) yn galw heibio i feirniadu'r gystadleuaeth ddyddiol, sef llinell goll.
Gwnaed sylw gan y wasg yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn y llynedd mai stondin Cymdeithas Eisteddfodau Cymru oedd un o'r rhai prysuraf ar y Maes i gyd! Welwn ni chi yno!

COFIWCH AM YR ENSEMBLE!

Ar ôl yr Eisteddfod yr Urdd bydd ein golygon yn troi at yr Eisteddfod Genedlaethol – felly cofiwch bod angen ennill mewn dwy eisteddfod leol rhwng nawr a diwedd Gorffennaf i gael cystadlu am y wobr fawr yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Pob hwyl arni!

RAFFL 2016



Cofiwch bod tocynnau Raffl Fawr y Gymdeithas ar gael. Cysylltwch â Shân.

COFIWCH GEFNOGI EICH 'STEDDFOD LEOL

'steddfota DRWY'R POST

Hoffech chi dderbyn copi o 'Steddfota drwy'r post? Cysylltwch â **Shân** neu **Mei** neu ewch i'n gwefan.

mynnu gair

Os hoffech chi ddefnyddio gwasanaeth ein Swyddogion Datblygu mae croeso i chi gysylltu â nhw yn y cyfeiriadau isod:

Swyddog Datblygu y De
Shân Crofft
shân@steddfota.org
02920 213596
07770 870605

Swyddog Datblygu'r Gogledd
Meirion MacIntyre Huws
mei@steddfota.org
01286 660 017
07887 654 251

Cofiwch hefyd am ein gwefan:
www.steddfota.org
ble ceir yr hanesion diweddaraf o fyd yr eisteddfodau.

Ffrindiau 'steddfodol

Cofiwch, am ba bynnag reswm, bod modd i chi gysylltu â ni ar *Facebook:*
Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

galw am luniau

Diflas iawn fyddai'r newyddlen hon, yn ogystal â'n gwefan, heb luniau da. Cofiwch anfon unrhyw luniau sydd gennych o fyd yr eisteddfodau at Mei neu Shân.

TRADDODIAD Y PWRS GWOBRAU, Y 'PRIZE BAGS'

Mewn sgwrs gydag aelod o bwyllgor Eisteddfod Heol Senni yn ddiweddar, clywodd Shân Crofft, un o'n Swyddog Datblygu mai'r 'unig beth ar ôl i'w drefnu ar gyfer ei eisteddfod oedd y *prize bags*', sef y pyrsiau neu fagiau bach hynny a roir i blant buddugol mewn eisteddfodau. Mae Eisteddfod Heol Senni, fel Eisteddfod Llawrtyd, Bryngwenith ac Eisteddfod Capel Uchaf yn dal i roi rhain i fuddugwyr yn eu heisteddfodau. Meddai Shân 'Fel plentyn, dwi'n cofio rhes ohonynt yn hongian ar gefn y llwyfan yn Eisteddfod Maenclochog'. Yn anffodus nid yw'r arfer wedi parhau ym Maenclochog, felly hefyd yn sawl eisteddfod arall.
A yw eich eisteddfod chi'n dal i roi bagiau fel hyn i blant? Os felly anfonwch lun os gwelwch yn dda, fe fyddai'n braf cael cael eu cyhoeddi yn *Steddfota*. Fel arall hwyrach ei bod yn syniad ail-gydio'n y traddodiad? Yn sicr fe fyddai'r cystadleuwyr ifanc yn ein mysg yn falch iawn!

Rhai o bobl ifanc Eisteddfod Bryngwenith 2016 yn falch o'u bagiau gwobrau.

61 CADAIR!

Yn ddiweddar, enillydd y Gadair yn Eisteddfod Capel y Fadfa, Talgarreg oedd Dafydd Guto Ifan o Benisarwaun, Gwynedd. Mae gan Dafydd 60 o gadeiriau yn barod a dyma ei 61ain. Cychwynnodd Dafydd ar ei yrfa farddol eisteddfodol yn 1969 ac mae wedi ennill cadeiriau ym mhob cwr o Gymru. I'w gyfarch o'r llwyfan, darllenwyd y penillion canlynol gan Megan Jones, Cadeirydd y Gymdeithas hon ac aelod o bwylllgor yr Eisteddfod :

Braint

Fel pysgodyn at y don,
Fel yr henwr at ei ffon,
Fel plant ifanc at sŵn ffeiriau
Felly Dafydd am gadeiriau.

Nid un gadair, nid deg chwaith,
Ond chwe deg un mae hynny'n ffaith.
Chwe deg un! Gan gynnwys hon,
Mae'n anodd iawn ei gredu bron!

Ond eto i gyd nid ydyw'n syndod,
Y mae ei ddawn yn wir ryfeddod,
A braint i ni yw rhoddi heno'r
Gadair hon i'r bardd a'r llenor.

o fyd yr eisteddfodau

Dyma gasgliad o gystadleuwyr a buddugwyr yn rhai o'r eisteddfodau lleol yn ystod y misoedd diwethaf.

*Cystadleueth **Ensemble Lleisiol** yn Eisteddfod Brynberian 2016*

***Sioned Martha Davies**, Pencader, enillydd Tlws yr Ifanc, Eisteddfod Maenclochog 2016*

Gwobrywo yn Eisteddfod Bryngwenith 2016

***Gwynne Jones**, Llanafan - enillydd yr Unawd Emyn dros 60 oed yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid 2016*

Llongyfarchiadau!

***Parti'r Bryn** yn Eisteddfod Brynberian 2016*

***Mrs Neli Jones**, Eisteddfod Ponrhydfendigaid gyda **Ioan Joshua Mabbutt** o Aberystwyth a gafodd wobr gyntaf am Lefaru Bl 3 a 4 a thrydydd ar y Canu Bl 3 a 4.*

Enillwyr Cystadlaethau agored ***dan 7 oed*** *yn Eisteddfod Maenclochog 2016*

Terwyn Tomos*, Llandudoch - enillydd y Gadair yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid 2016*

Megan Angharad Hunter*, enillydd Tlws Coffa Eirug Wyn yn Eisteddfod y Groeslon 2016 gyda Karen Owen y beirniad.*

Rhai o fuddugwyr ifanc Eisteddfod Bryngwenith 2016

Côr Harmo-Ni *yn cystadlu ar Sgen ti Dalent yn Eisteddfod Maenclochog 2016*

Cofiwch bod oriel luniau ar ein gwefan: www.steddfota.org

EISTEDDFOD MYNYDDYGARREG YN DATHLU 25 OED

Eleni mae Eisteddfod Mynyddygarreg yn dathlu ei phen-blwydd yn 25 oed ac i ddathlu'r garreg filltir hon penderfynwyd ei gwneud yn Eisteddfod Gadeiriol. Sefydlwyd yr Eisteddfod yn wreiddiol yn 1991 fel rhan o Ŵyl Menter Cwm Gwendraeth ac mae wedi mynd o nerth i nerth.

Eisteddfod Gadeiriol Mynydd y Garreg
Aelod o Gymdeithas Eisteddfodau Cymru
Dydd Gwener Mai 13fed 2016
I ddechrau am 5pm
Llywydd
Madge Daniels
Beirniaid
Cerdd Meirion Wynn Jones
Llefaru Tudur Dylan
Dawns Madge Daniels
Arlunio Sharon Evans
Cyfeilydd Geraint Rees
Arweinyddion
Mansel Thomas
Ioan Hefin
Sion Lewis
Ysgrifennydd Rebecca Williams
Trysorydd Helen John
Mynediad: £2 Plant 50c

Cynhelir yr Eisteddfod ar nos Wener ym Mis Mai yn Neuadd Mynyddygarreg – a honno, ers y cychwyn, dan ei sang gyda chystadlu brwd – yn enwedig o dan 12 oed.
Ond does ryfedd bod yr eisteddfod yn llwyddiant mawr gan fod yma gefnogaeth gref yn lleol a Phwyllgor hynod o weithgar a chydwybodol. Mae rhai o'r pwyllgor yn aelodau ers y dechrau, Mansel Thomas - y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd, Helen Morris y Trysorydd a Rebecca Williams yr Ysgrifennydd Cynorthwyol.
Yn ogystal a'r pwyllgor mae tri unigolyn pwysig arall sy'n cefnogi'n flynyddol, Madge Daniels beirniad y Dawnsio, Sharon Evans y beirniad Arlunio a Geraint Rees y Cyfeilydd
Eleni Madge Daniels yw'r Llywydd.
Ond nid ar bwyllgor gweithgar yn unig y bydd eisteddfod byw, mae angen arian wrth gwrs ac mae gan Eisteddfod Mynyddygarreg un aelod o'r Pwyllgor ddull gwahanol iawn o godi arian. Bob blwyddyn bydd Peggy Davies yn gwisgo fel Hen Fenyw Fach Cydweli ac yn gwerthu losin du. A phob blwyddyn mae Peggy'n codi swm anrhydeddus i chwyddo coffrau'r Eisteddfod.
Fel y soniwyd yn barod, penderfynwyd gwneud yr eisteddfod yn un gadeiriol ac aeth saer lleol, Huw Morris – sydd yn enedigol o Mynyddygarreg – ati i greu cadair barhaol maint llawn.
Yn ogystal fe luniodd gadair fechan i'r bardd buddugol ei chadw. Noddwyd y gadair gan David Gravell o Garej Gravell a'r enillydd oedd Les Barker o Fwlchgwyn, Wrecsam.
Yn ystod seremoni'r cadeirio bu plant ysgolion cynradd Mynyddygarreg a Thrimsaran yn perfformio'r ddawns flodau gyda dau berson ifanc o'r ardal yn tywys y bardd i'r llwyfan
Y beirniad oedd Tudur Dylan (Llên a llefaru) a Meirion Wyn Jones (Cerdd).
Mae'r Eisteddfod yn ddiolchgar iawn am y nawdd y mae'n ei dderbyn gan Glwb Cinio Bro Gwenllian, Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, Cyngor Shir Gâr a Chronfa Pantyfedwen

Peggy Davies a gwneuthurwr y gadair, Huw Morris

Seremoni'r Cadeirio ar gychwyn.

Genethod y Ddawns Flodau

Cadeirio Les Barker

DIWEDD Y GÂN YW'R GEINIOG


Y Gwladgarwr.

Cofnodydd Llenyddiaeth, Gwleidyddiaeth, Newyddion Tramor, Cyffredinol, &c., &c.

[Sefydlwyd yn y Flwyddyn 1858.]

(Established in the Year 1858.)

Rhif 749 Registered for Transmission Abroad. SADWRN, CHWEFROR 8, 1873. [Pris Ceiniog.

Ffrwydriad a Cholliad Byw- | Melingryddan, Castell-nedd. | "Fy nwydbair fo, rhyddid Pob gradd, heb na ilodd na llsd." | Siloam, Gyfhillion. Rydded hyoys y cynulir Cyfarfod

Mae gwobrau ariannol eisteddfodau yn amrywio yn ôl maint yr eisteddfod dan sylw. Ond tybed sawl un a fyddai'n anfon llythyr at y Trysorydd y dyddiau hyn yn cwyno nad yw'r wobr yn ddigon hael? Dyma lythyr o golofnau papur *Y Gwladgarwr*, 8 Chwefror 1873.

AT BWYLLGOR EISTEDDFOD TY-CHWITH, MAESTEG.
Yr hyn sydd wedi peri i mi ysgrifenu atoch ydyw ynghylch y wobr a gynygir am ganu 'Y Blodeuyn Olaf,' sef £2, gwarthus! Y mae peth fel hyn yn sarhad ar urddas y dernyn a'r cyfansoddwr. Y mae canu y fath ddernyn a hwn, a'i ganu yn deilwng, yn llawn gwerth £6 yn y man lleiaf. Cofus genyf i ddarllen fod 'Y Blodeuyn Olaf' wedi ei ddangos i M. Costa, Ysw., a'i nodiad oedd fel a ganlyn "If the Welsh can com-pose such pieces as those, I do not hesitate to say that they won't be long before surpassing the world.'
Felly, os ydym yn gosod gwobrau bychain i lawr, gosodwn ddarnau sydd yn cyfateb, fel na byddom yn iselhau cyfansoddwyr ein gwlad.

OSGOI EMBARAS?

Yn dilyn seremoni'r cadeirio yn yr Eisteddfod Genedlaethol mae dyfalu pwy ddaeth yn ail neu'n drydydd. Embaras i rai fyddai dod yn ail a neb yn deilwng y flwyddyn honno. Gwell felly fyddai peidio â chyfaddef eich bod wedi cystadlu. Ai dyma ddigwyddodd yn 1868? Ym mhapur newydd *Y Dydd*, 31 Gorffennaf 1868 ar waelod y dudalen mae'r pwt bychan yma. Ai Hwfa Môn ei hun a anfonodd hwn at y Golygydd?

HWFA MON A'R EISTEDDFOD
Syr,
Yr ydym yn deall fod rhai yn taenu y newydd ar led fod Hwfa Môn wedi cynnyg am y goron yn Eisteddfod Ruthun. Ond yr ydym yn deall oddi ar awdurdod uchel, fod y bardd am wneud yn hysbys nad anfonodd yr un llinell i Eisteddfod ddyfodol Ruthun. Felly, ni chaiff neb yr anrhydedd o'i guro, na'r anffawd o fethu.

IECHYD A DIOGELWCH

Fe glyw yn aml pobl yn dweud "Mae'r holl fusnes Iechyd a Diogelwch wedi mynd dros ben llestri erbyn hyn" ond diolch i'r drefn am reolau felly, yn enwedig ym myd gwaith.
Dyma stori drist iawn o bapur *Y Negesydd*, 1 Medi 1899 yn adrodd hanes damwain yn Eisteddfod Caerdydd y flwyddyn honno wrth i'r babell enfawr gael ei thynnu i lawr ar derfyn yr Ŵyl.

DAMWAIN I BABELL YR EISTEDDFOD CENEDLAETHOL.
Boreu ddydd Iau diweddaf, tra yr oedd nifer o ddynion wrth y gwaith o dynu i lawr y babell lle y cynhelid yr Eisteddfod Genedlaethol ddiweddaf, yn Nghaerdydd, daeth yr oll i lawr yn bendramwnwgl a di-rybudd. Dau o'r dynion gafodd niweidiau, un o ba rai a fu farw ymhen ychydig oriau ar ôl y ddamwain. Diangfa gyfyng gafodd eraill.

Oes gennych chi straeon o steddfodau'r gorffennol pell?
Anfonwch nhw at Mei Mac: mei@steddfota.org

CADAIR 'BELL'

Iestyn Tyne

Mae'n siŵr bod gan pob bardd cadeiriol ei gadair gyntaf, ei gadair fwyaf, ei gadair leiaf, ei hoff gadair ac yn y blaen ond mae bardd ifanc o Ben Llŷn newydd ennill ei gadair bellaf erioed.
Yn dilyn ymweliad â gwefan y Gymdeithas aeth Iestyn Tyne ati i lunio cerdd i Eisteddfod Trevelin, Y Wladfa. Dywedodd ei fod wedi gweld y gystadleuaeth ar dudalen Rhestr Eisteddfodau'r gwefan CEC a 'phenderfynu mynd amdani.'
Yn dilyn clywed am ei gamp, meddai 'Mae'r ymateb wedi bod yn wych,' a nawr mae wrthi'n trefnu sut ti gael y Gadair yn ôl i Gymru.
'Maen nhw 'di deud y byddan nhw'n ei chadw hi imi am faint bynnag o flynyddoedd fydd o'n cymryd imi sortio rhywbeth allan,' meddai.
Mae Iestyn yn enw cyfarwydd ym myd yr eisteddfodau gan ennill wyth cadair arall yn y blynyddoedd diwethaf. Ond dyma'r tro cyntaf iddo fentro cystadlu dros y môr! 'Dw i'n meddwl ei bod hi'n bwysig cystadlu yng nghystadlaethau'r Wladfa, ac mae 'na amryw o bobl o Gymru wedi ennill o'r blaen yn enwedig yn Eisteddfod y Wladfa. Mae'r bobl ym Mhatagonia yn gwerthfawrogi ein bod ni'n cofio am eu heisteddfodau nhw ac yn eu cefnogi.'
Ysgrifennodd y gerdd, ar y testun Llwybrau adeg wyna ar y ffarm lle mae'n byw, ac mae'n sôn am y ffin rhwng bywyd a marwolaeth yr adeg hynny o'r flwyddyn.
Dywedodd Iestyn ei fod â diddordeb yn ymweld â'r Wladfa ers blynyddoedd ac wedi meddwl teithio yno sawl tro, ond 'mae gen i fwy o reswm nag erioed i fynd rŵan.' meddai.

calendr eisteddfodau cefnogwch!

Cofiwch bod modd lawrlwytho Rhestrau Testunau oddi ar wefan y Gymdeithas hefyd.

MAI 2016			
28 Mai	Eisteddfod Gadeiriol Y Llungwyn Llanuwchllyn	Alwyn Roberts	07818454190
MEHEFIN			
11 Mehefin	Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth	Rhian Thomas	01341 450295
11 Mehefin	Eisteddfod Ieuenctid Bontnewydd	Dilys Williams	01286 676905
11 Mehefin	Eisteddfod Kerry	Mr Gwynfryn Evans	01686 670567
11 Mehefin	Eisteddfod Dyffryn Elwy Llanfairtalhaiarn	Elinor Davies	01745 720235
18 Mehefin	Eisteddfod Rhydaman	Miriam Phillips	01269 850870
18 Mehefin	Eisteddfod Y Fenni – Oedolion	Ceri Thomas	01873 850379
18 Mehefin	Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy Llanrwst	Enid a Dennis Davies	01492 640060
25 Mehefin	Eisteddfod Bro Aled, Llansannan	Eifion M. Jones	01745 870656
28 Meh–3 Gorff	Gŵyl Fawr Aberteifi	Des Davies	01239 615914
GORFFENNAF			
2 Gorffennaf	Eisteddfod Bro Llandegfan	Beryl Jones	01248 714883
9 Gorffennaf	Eisteddfod Yr Hen Gapel, Llanbrynmair	Beti Owen	01650 521388
9 Gorffennaf	Eisteddfod Gadeiriol Bodffordd	Elin Williams	01248 298357
15 & 16 Gorff	Eisteddfod Talaith a Chadair Powys Croesoswallt	Edwin Hughes	01650 521203
16 Gorffennaf	Eisteddfod Gadeiriol Castell Newydd Emlyn a'r Cylch	Bethan Jones	01239 711222
23 Gorffennaf	Eisteddfod Upper Chapel / Capel Uchaf, Aberhonddu	Annette Thomas	01874 622892
AWST			
29 Gorff – 6 Awst	Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Sir Fynwy a'r Cyffiniau	Swyddfa'r Eisteddfod	0845 4090 300
27–29ain Awst	Eisteddfod Rhys Thomas James, Llanbedr Pont Steffan	Dorian Jones	01570 422678
MEDI			
2 Medi	Eisteddfod Dwyieithog Pobl Hŷn Môn – Celf a Chrefft	Helen Elis	01286 830886
9 a 10 Medi	Eisteddfod Gadeiriol Tregaron	Ffion Medi Lewis-Hughes	01974 298730
17 Medi	Eisteddfod Gadeiriol Cwmystwyth	Mrs. Mair Davies	01970 890245
17 Medi	Eisteddfod Gadeiriol Y Tymbl	Anwen Evans	01269 833568
24 Medi	Eisteddfod Gadeiriol Felinfach	Meinir Lewis	01570 470050
24 Medi	Eisteddfod Gadeiriol Llanwrtyd	Susan Price	01591 610303
30 Medi	Eisteddfod Dwyieithog Pobl Hyn Môn – Cystadl. Llwyfan	Helen Elis	01286 830886
HYDREF			
1 Hydref	Eisteddfod Bethel Melin y Coed	Anwen Hughes	01492 640288
7 Hydref	Eisteddfod Calfaria, Garnant	Gwladys Davies	01269 823138
7 Hydref	Eisteddfod Stesion Trawsfynydd	R.Derfel Roberts	07833-506500
8 Hydref	Eisteddfod Gadeiriol Llanarth	Catrin Bellamy Jones	01545 580279
22 Hydref	Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch	Eirlys Morwenna Hughes	01286 870898

CYMRAEG
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

www.steddfota.org